Strategaeth 2026 - 2030

Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol:

# Strategaeth 2026-2030



# Crynodeb

Mae'r amlinelliad hwn yn datgan ein gweledigaeth strategol a'n cyfeiriad ar gyfer y pum mlynedd nesaf, hyd at 2030.

Mae ein gweledigaeth a'n cenhadaeth yn parhau i fod un fath: bod yn rheoleiddiwr uchel ei barch o broffesiwn dibynadwy, gan wella proffesiynoldeb mewn gofal ceiropracteg a sicrhau y gall y cyhoedd gael mynediad at ofal o ansawdd uchel yn ddiogel ac yn hyderus.

Rydym mewn sefyllfa gref gan ein bod wedi cyrraedd y mwyafrif o'n huchelgeisiau blaenorol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod cyfleoedd i wella yn ein gwaith (yn fewnol ac yn allanol). Mewn ymateb, rydym yn cynnig tri nod strategol:

1. Byddwn yn cynnal safonau proffesiynol trwy gydol addysg a gyrfa pob ceiropractydd
2. Byddwn yn cyflawni ein gweithgareddau rheoleiddio a chofrestru craidd i safon uchel
3. Byddwn yn cydweithio i lunio dyfodol y proffesiwn

Mae pob nod strategol wedi'i gefnogi gan amcanion cyflawnadwy y byddwn yn mynd ar eu trywydd yn ystod oes y strategaeth hon.

## Effeithiolrwydd sefydliadol

I fod yn rheoleiddiwr effeithiol, rhaid i'r CCC fod yn sefydliad effeithiol.

Y ffactorau rydyn ni'n eu hadnabod fel rhai allweddol i'n heffeithiolrwydd fel sefydliad yw ein:

- Pobl: Yr aelodau cyngor, staff a phartneriaid sy'n cyflawni ein gwaith
- Cydweithwyr a rhanddeiliaid yn y system geiropractig ehangach
- Ymrwymiad at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Cynaliadwyedd ariannol
- Gwydnwch
- Seilwaith digidol

Rydym wedi gosod amcanion cyflawnadwy i gefnogi ein heffeithiolrwydd fel sefydliad.

Byddwn yn darparu gwybodaeth fanylach am sut y byddwn yn cyflawni pob nod yn ein cynlluniau busnes blynyddol a thrwy ein gwefan.

# Gosod yr Olygfa

Yn ein strategaeth flaenorol (2022-2024) gwnaethom osod pedwar nod strategol, sef:

1. Rhoi cleifion a'u gofal wrth wraidd ein gwaith
2. Hyrwyddo ymarfer gorau ceiropractig parhaus, proffesiynoldeb a gwerth yn y system iechyd a gofal
3. Rheoleiddio'n effeithiol, yn effeithlon, yn arloesol ac yn gynhwysol
4. Gwella natur a ffurf rheoleiddio ar gyfer y dyfodol

Gwnaethom gynnydd sylweddol drwy:
- Datblygu "llais y claf" cryfach
- Cyflwyno safonau addysg newydd.
- Diweddaru'r Cod i osod safonau proffesiynoldeb uwch ar gyfer cofrestreion.
- Cefnogi twf y proffesiwn drwy gymeradwyo rhaglenni addysg newydd.
- Cwblhau ein cynllun gweithredu CAC cyntaf.

a gwnaethom rannu manylion ein cyflawniadau yn ein hadroddiadau blynyddol[1] a chyhoeddiadau ar ein gwefan.

## Adroddiadau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA)

Cafodd ein cynnydd ei gydnabod yn allanol gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol:

- Yn 2022 gwnaethom fodloni 17 o 18 Safon y PSA.
- Yn 2023 gwnaethom fodloni pob un o'r 18 safon.
- Yn 2024 gwnaethom fodloni 17 o 18 safon y PSA
- Yn 2025 gwnaethom fodloni 17 o 18 safon y PSA, gan fethu â chyrraedd Safon 15 oherwydd oedi mewn ymchwiliadau ffitrwydd i ymarfer.

## Y pwysau rydym yn ei wynebu

Rydym wedi bod yn dadlau'n gryf dros ddiwygio rheoleiddio ers sawl blwyddyn a byddwn yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddisgwyliad o newid deddfwriaethol ar raddfa eang dros y tair blynedd nesaf.

Mae ein rheolau a'n deddfwriaeth bresennol yn anhyblyg, wedi dyddio, ac weithiau'n gyfyngol. Mae hyn yn effeithio ar gleifion a chofrestreion fel ei gilydd.

Fel rheoleiddiwr iechyd a gofal bach iawn, nid oes gennym arbedion maint, sy'n gwneud ein ffioedd cofrestru yn uchel. Er nad ydym erioed wedi cynyddu ein ffioedd, mae ein hincwm dan bwysau oherwydd costau cynyddol. Mae ein gweithlu main yn effeithio ar ein gwydnwch gydag unigolion allweddol yn cario cyfrifoldeb sylweddol, ac rydym yn gwybod y gall fod yn anodd cysylltu â ni weithiau.

Er ein bod wedi buddsoddi mewn system gofrestru ar-lein “hunanwasanaeth”, a system rheoli achosion ar-lein ar gyfer Ffitrwydd i Ymarfer, mae cofrestreion yn dweud wrthym fod meysydd eraill i'w gwella ac nad yw'r rhyngwyneb bob amser yn reddfol.

[1] Cyhoeddiadau'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol. https://www.gcc-uk.org/about-us/publications

Mae cydnabod yr heriau hyn yn ein hysbrydoli i wneud gwelliannau ymarferol, parhaol ac ystyrlon i'r ffordd rydym yn gwasanaethu ein cofrestreion, a sut rydym yn amddiffyn cleifion a'r cyhoedd.

# Ein Nodau

## Byddwn yn cynnal safonau proffesiynol trwy gydol addysg a gyrfa pob ceiropractydd

Rôl sylfaenol i reoleiddiwr yw gosod safonau. Mae gennym bellach safonau cyfoes ar waith o fewn y Cod Ymarfer Proffesiynol, a'r Safonau Addysg. Ein tasg bellach yw adeiladu ar y seiliau hynny ac annog a chymell cydymffurfiaeth i helpu ceiropractyddion i ddarparu gofal diogel, o ansawdd uchel er budd gorau cleifion. Byddwn yn gweithio fel rhan o'r system geiropracteg, ochr yn ochr â chymdeithasau proffesiynol a Choleg Brenhinol y Ceiropractyddion, i ddatblygu a hyrwyddo canllawiau, cyngor ac arfer gorau.

Rhaid i geiropractyddion gadw eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol a'u hymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Nid yw'n model ar gyfer CPD, a'r prosesau sydd ar waith ar gyfer ei gofnodi, bob amser yn alinio â disgwyliadau'r proffesiwn. Mae hwn yn gyfle sy'n cael ei golli.

Mae twf diweddar rhaglenni addysg ceiropracteg yn y DU, ac ehangu rhaglenni lloeren domestig a rhyngwladol gan ddarparwyr presennol yn y DU, wedi bod yn llwyddiant. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr heriau ehangach o fewn addysg gofal iechyd a'r effaith ar ddarparwyr. Ein ffocws yw cynnal ansawdd ac nid oes gennym rôl yn ymyrryd yng ngofal goruchwylio'r farchnad addysg. Capasiti cyfyngedig sydd gennym i brosesu ceisiadau newydd, ac nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn newid.

Gwelwn fanteision gweithio o fewn model addysg rhyngwladol sy'n lleihau'r dyblygu a grëir gan gyrff achredu ond nid er afles i safonau uchel a sail statudol cymeradwyaeth y CCC.

### Byddwn yn cyflawni hyn drwy

- Gefnogi cofrestreion i fodloni'r safonau newydd o fewn y Cod Ymarfer Proffesiynol gyda dysgu, arweiniad a gwybodaeth.
- Cefnogi cofrestreion i ymgorffori diwylliant o ddiogelwch sy'n seiliedig ar agoredrwydd, didwylledd, cydsyniad a chynhwysiant.
- Gweithio gyda'r proffesiwn i ailddiffinio Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) fel bod ceiropractyddion yn parhau i fod yn ffit i ymarfer drwy gydol eu gyrfa, a gall cleifion a'r cyhoedd fod â hyder yn y proffesiwn.
- Ceisio cydbwyso ein gwaith addysg rhwng cydnabod rhaglenni newydd a rhaglenni lloeren; a sicrhau ansawdd rhaglenni presennol yn erbyn y Safonau Addysg. Byddwn yn sicrhau bod pob rhaglen yn cynhyrchu graddedigion sy'n ddiogel, yn ffit i ymarfer, ac yn diwallu anghenion cyflogwyr a'r proffesiwn yn ehangach.
- Byddwn yn archwilio cyfleoedd gyda chyrff achredu addysg rhyngwladol i leihau'r baich ar ddarparwyr addysg y DU o ran galluogi symudedd rhyngwladol eu graddedigion.

## Byddwn yn cyflawni ein gweithgareddau rheoleiddio a chofrestru craidd i safon uchel

Rydym yn pryderu, fel y mae'r PSA, ein bod yn cymryd gormod o amser i brosesu cwynion yn ein gwaith Ffitrwydd i Ymarfer (FTP). Rydym eisoes wedi cydnabod hyn ac wedi rhoi camau ar waith i wella ein perfformiad, yn enwedig buddsoddi mewn system rheoli achosion.

Mae ein costau FTP yn uchel ac yn defnyddio cyfran anghymesur o'n hamser a'n hadnoddau ni ac eraill. Rydym yn anelu at ddull mwy cymesur sy'n cydbwyso diogelu'r cyhoedd â thegwch ac amseroldeb i achwynwyr a chofrestreion, gan ddarparu sicrwydd rheoleiddiol a dilyn arfer rheoleiddio da.

Mae adborth o arolwg misol Pulse o gofrestreion yn dweud wrthym fod prosesau cofrestru arferol yn anoddach nag sydd angen iddynt fod, a gall fod yn anodd cysylltu â ni a gallwn fod yn araf i ymateb. Rydym eisiau cynyddu capasiti ein tîm cofrestru a datblygu gwell systemau.

Mae cyfran fach o'r gofrestr yn dewis talu ffi is (a elwir hefyd yn ffi heb fod yn ymarfer). Nid ydym yn credu bod yr opsiwn hwn er budd gorau'r ceiropractydd (sy'n parhau i fod yn ddarostyngedig i'n gofynion DPP, safonau a FTP) neu (os yn ymarfer dramor) eu cleifion (gan na allwn warantu yswiriant indemniad). Nid yw ychwaith yn gost-effeithiol i'r CCC (gan nad yw'r ffi yn cwmpasu cost gweinyddu cofrestriad). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad ydym yn deall yn llawn gwahanol amgylchiadau'r rhai sy'n dewis talu'r ffi hon.

Mae cofrestreion yn dweud wrthym yn gyson eu bod am i ni weithredu'n gyflym ac yn bendant wrth ddelio â honiadau o dorri amddiffyniad teitl (Adran 32). Er bod ein llwyth achosion presennol ar ei isaf erioed ac rydym yn gweithredu ym mhob achos, mae ein polisi gorfodi wedi dyddio, ac rydym eisiau gwneud mwy i wella gwerth cofrestru ac amddiffyn y cyhoedd rhag unigolion heb eu cofrestru.

### Byddwn yn cyflawni hyn drwy

- Datblygu dull mwy cymesur o ymdrin â ffitrwydd i ymarfer – gan gynnwys archwilio mabwysiadu model datrys cynnar i fynd i'r afael â phryderon cyn iddynt droi'n gŵyn. Rydym am weithio ochr yn ochr â'r achwynydd i ddod o hyd i ddatrysiad priodol. Drwy fynd i'r afael â risgiau, pryderon a chwynion yn gymesur, credwn y gallwn barhau i ddiogelu'r cyhoedd, lleihau'r niwed i achwynwyr a darparu datrysiad mwy amserol i gofrestreion.
- Mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer wrth ymdrin â phrosesau cofrestru arferol, gan ddefnyddio mewnwelediadau o arfer gorau, ymchwil a meincnodi i wella ein gwasanaethau'n raddol.
- Ymchwilio i amgylchiadau a chymhellion y rhai sydd wedi cofrestru ac sy'n talu'r ffi is, a deall y rhain yn well. Byddwn yn ceisio ffurfioli ein perthnasoedd ag awdurdodaethau y tu allan i'r DU sy'n gofyn am gofrestru gyda'r CCC fel amod o ymarfer fel ceiropractydd ac yn ystyried a oes achos dros barhau i gynnig y ffi is.
- Datblygu a (yn dilyn ymgynghoriad) gweithredu dull newydd o orfodi amddiffyniad teitl ceiropractydd i amddiffyn cleifion rhag unigolion heb eu rheoleiddio a heb eu cofrestru.

## Byddwn yn cydweithio i lunio dyfodol y proffesiwn

Fel rheoleiddiwr dibynadwy a sefydledig o broffesiwn sy'n aeddfedu, rydym yn ymdrechu i ymgysylltu'n agored ac yn gynhwysol â rhanddeiliaid i lywio ein cyfeiriad. Rydym yn gwrando ar ystod eang o safbwyntiau i lywio ein gwaith i gefnogi datblygiad y proffesiwn.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall ein hymgysylltiad fod yn ymatebol yn hytrach nag yn strwythuredig ac yn flaengar. Rydym am gryfhau perthnasoedd â chleifion, cofrestreion, addysgwyr a chyrff partner er mwyn llywio ein gwaith yn well, nodi pryderon sy'n dod i'r amlwg a gweithredu'n gymesur.

Rydym yn gwerthfawrogi gofal iechyd hygyrch i bob claf. Mae'r Cod Ymarfer Proffesiynol yn plannu ein disgwyliad y bydd pob ceiropractydd, fel gweithiwr iechyd proffesiynol, yn parhau i weithio i greu gweithleoedd a darpariaeth gofal cynhwysol lle mae pobl yn cael eu gwerthfawrogi a rhwystrau at ofal yn cael eu tynnu. Gallwn gefnogi'r proffesiwn drwy helpu i fesur cynnydd ac amlygu arfer da.

Mae ein fframwaith cyfreithiol cyfredol yn rhwystr i reoleiddio modern. Rydym eisiau datblygu dull mwy cynhwysol ac ystwyth yn seiliedig ar egwyddorion Right Touch Regulation wedi'u nodi gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol[2].

Credwn y gallwn fod yn fwy beiddgar, yn enwedig pan fo consensws dros newid. Byddwn yn archwilio, yn profi ac yn herio ffiniau ein fframwaith cyfreithiol yn weithredol ac yn datblygu polisïau a phrosesau sy'n diwallu anghenion rheoleiddio modern.

Rydym yn cydnabod gwerth ymchwil ddiweddar sy'n gwneud achos dros ofal ceiropracteg wrth ddiwallu anghenion cyhyrysgerbydol cynyddol poblogaeth y DU o fewn y system iechyd a gofal cyhoeddus ehangach. Gallwn ddefnyddio ein hadnoddau, ochr yn ochr â rhanddeiliaid eraill yn y system, i gefnogi datblygiad y proffesiwn.



[2] Mae Right Touch Regulation yn ymwneud ag asesu lefel y risg o niwed i'r cyhoedd, a penderfynu ar yr ymateb mwyaf cymesur ac effeithiol i liniaru'r risg. Mae'n cydnabod efallai nad rheoleiddio yw'r dull mwyaf priodol. Mae'r PSA wedi nodi'r egwyddorion y dylai rheoleiddio fod yn: Gymesur, Cyson, Targedig, Tryloyw, Atebol ac Ystwyth. https://www.professionalstandards.org.uk/improving-regulation/right-touch-regulation

## Byddwn yn cyflawni hyn drwy

- Cael consensws ar draws y proffesiwn a'n rhanddeiliaid ein hunain ar gyfer dull rheoleiddio sy'n agosach at egwyddorion Right Touch Regulation.
- Gwella ein hymgysylltu â rhanddeiliaid drwy Fforwm Ceiropracteg y DU (UKCF)[3], Chiropractic Patient Voice[4] a mecanweithiau eraill.
- Gwella ein dealltwriaeth o safbwynt y cyhoedd a chleifion drwy ymchwil, gan gynnwys gyda phobl sydd â phrofiad byw o rwystrau i gael mynediad at ofal a gwasanaethau. Byddwn hefyd yn mesur ac yn deall sut mae agweddau tuag at gynhwysiant o fewn y proffesiwn yn newid dros amser. Byddwn yn defnyddio'r mewnwelediadau hyn i lunio ein polisïau a'n penderfyniadau a byddwn yn rhannu'n canfyddiadau â'r proffesiwn.
- Annog dealltwriaeth gyffredin o beth mae ‘datblygu’r proffesiwn’ (fel y cyfeirir ato yn ein deddfwriaeth) yn ei olygu i sector sy’n aeddfedu, a’n rôl ni wrth gefnogi datblygiad y proffesiwn a thwf y gofrestr.
- Cefnogi sefydliad cam cynnar y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Ceiropractig (NCCR)[5]. Nod yr NCCR yw galluogi datblygiad ymchwil gydlynol a chydweithredol ar draws sefydliadau addysg y DU.
- Ystyried cyfleoedd pellach i ddarparu adnoddau strategol tymor byr, a mathau eraill o gydweithio, a fydd yn cyfrannu at nodau ymchwil a datblygu a rennir er budd proffesiwn ceiropracteg y DU.
- Cydweithio â chyrff proffesiynol a rhanddeiliaid eraill wrth iddynt archwilio'r potensial ar gyfer integreiddio a chydnabod ceiropracteg gan y sector iechyd a gofal ehangach.

[3] Mae Fforwm Ceiropracted y DU yn grŵp trafod sy'n dwyn ynghyd y pedair cymdeithas broffesiynol yn y DU, Coleg Brenhinol y Ceiropractyddion, y CCC a chyrff eraill sydd â diddordeb ym mhroffesiwn ceiropracteg y DU.

[4] Mae Chiropractic Patient Voice yn bodoli i gynrychioli safbwyntiau'r cyhoedd a chleifion ceiropractig. https://rcc-uk.org/patients/chiropractic-patient-voice/

[5] Bydd y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Ceiropractig (NCCR) wedi'i lleoli yn Health Sciences University (HSU) mewn partneriaeth â London South Bank University, McTimoney College, Teesside University, a Phrifysgol De Cymru.https://www.hsu.ac.uk/collaborative-national-centre-for-chiropractic-research-to-launch-in-2025/

# Ein heffeithiolrwydd fel sefydliad

Mae bod yn rheoleiddiwr effeithiol yn gofyn am sefydliad effeithiol. Mae bod yn llwyddiannus yn gofyn ein bod yn creu'r amgylchedd cywir i gefnogi cyflwyno a galluogi arloesi.

## Ein Cynaliadwyedd

Rydym yn ddisgybledig wrth reoli ein gwariant ac wedi gweld twf cyson mewn cofrestru, gan gynyddu ein hincwm gan gyfartaledd o £91K y flwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae darparu ein gwasanaethau ar y lefel bresennol yn gofyn am chwistrelliad blynyddol o £120K o log a dderbynnir o'n portffolio buddsoddi.

Un o'r rhesymau dros hyn yw maint y CCC - nid oes gennym yr arbedion maint sydd gan reoleiddwyr mwy. Rydym hefyd yn agored i 'bwyntiau methiant unigol' - hynny yw, un neu ddau unigolyn sy'n gyfrifol am feysydd gwaith allweddol. Mewn sefydliadau eraill, mae gwybodaeth a sgiliau'n cael eu dosbarthu, gan ddarparu mwy o wydnwch.

Rydym yn datblygu strategaeth ariannol a fydd yn cefnogi model gweithredu cynaliadwy gyda mwy o wydnwch wrth atal ffioedd rhag cynyddu. Bydd hyn yn gosod paramedrau tryloyw ar gyfer cynaliadwyedd, buddsoddi a disgyblaeth ariannol wrth i ni archwilio newidiadau i'n model gweithredu.

Gwelodd y cyfnod strategaeth diwethaf fuddsoddiad mewn systemau TG, ac ni allem weithredu hebddynt. Rydym yn gweld cyfleoedd i wneud defnydd gorau o'r hyn sydd gennym yn hytrach na newid sylfaenol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y datblygiadau mewn AI ac rydym am sefydlu egwyddorion gweithredu ar gyfer ei ddefnyddio yn ein gwaith fel y gallwn archwilio cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd busnes pellach a mewnwelediadau dyfnach sy'n seiliedig ar ddata.

### Byddwn yn cyflawni hyn drwy

- Datblygu strategaeth ariannol sy'n defnyddio ein sefyllfa cronfa wrth gefn gref i alluogi buddsoddiad yn yr amcanion newydd a nodwyd yn y strategaeth hon.
- Archwilio sut y gallwn effeithio ar y baich ariannol cyffredinol ar raddedigion newydd, a'r rhai sy'n cymryd seibiant o ymarfer, gan gynnal ein cynaliadwyedd ariannol a gweithio o fewn ein fframwaith cyfreithiol presennol.
- Archwilio modelau gweithredu amgen (er enghraifft partneriaethau, allanoli neu wasanaethau a rennir) i gynhyrchu effeithlonrwydd, adeiladu gwydnwch a lleihau effaith tagfeydd a 'phwyntiau methiant unigol'.
- Optimeiddio ein systemau TG i gefnogi'r prosesau FtP a chofrestru gwell, creu profiad llyfn, effeithlon sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.
- Adnabod cyfleoedd i fanteisio ar fuddion AI, yn enwedig mewn darparu mewnwelediadau a dysgu, i lywio gwelliannau mewn gofal mwy diogel.

## Ein Pobl

Rydym yn dibynnu ar ein tîm bach o staff a'n rhwydwaith partneriaid ehangach (pobl leyg a chofrestreion sy'n gwasanaethu ar bwyllgorau a phaneli'r CCC) i gyflawni'n dyletswyddau a chyfrifoldebau.

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ein tîm ac yn cydnabod y buddion y mae profiadau bywyd gwahanol yn dod â nhw i'n gwaith. Mae ein gweithle yn un lle gall bawb ffynnu, cyfrannu'n llawn, a bod yn falch o berthyn.

Rydym yn gyflogwr cyfrifol a chefnogol gyda diwylliant lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cynnwys, a'u clywed.

Mae ein gwerthoedd:

- Agosatrwydd
- Cyflawniad
- Atebolrwydd
- Uniondeb

yn llywio ein hymddygiadau ac arweinyddiaeth o ddydd i ddydd. Rydym yn buddsoddi mewn dysgu a datblygu i bawb, gan gynnig hyfforddiant, mentora, cyfleoedd i wirfoddoli ac i dyfu, datblygu a symud ymlaen yn bersonol.

Ym mis Ebrill 2025, gwnaethom gytuno telerau newydd â'n partneriaid a gwelwn hyn fel cyfle i ddatblygu perthnasoedd dyfnach â phartneriaid a staff ar sail ymddiriedaeth a chydweithio.

### Byddwn yn cyflawni hyn drwy

- Cryfhau didwylledd, trwy gyflwyno rôl 'Gwarcheidwad Codi Llais' neu debyg, i gynnig ffordd ddiogel a chyfrinachol i staff a phartneriaid godi pryderon.
- Asesu diwylliant ein gweithle drwy arolygon staff, gwiriadau pwls, a dolenni adborth, a defnyddio'r mewnwelediadau hyn i feithrin amgylchedd ymatebol a chadarnhaol.
- Cryfhau ein cyfathrebu â phartneriaid i feithrin gweithio cydweithredol a mwy agos, yn ogystal â pharchu rôl ac annibyniaeth yr un sy'n gwneud y penderfyniad.

## Ein Hymrwymiad at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Fel rheoleiddiwr mae'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd a all gael effaith sylweddol ar fywydau pobl, ac mae'r strategaeth hon wedi amlinellu ein dyhead i wneud y penderfyniadau hyn mewn ffordd fwy cymesur. Rydym yn ceisio gwneud penderfyniadau mwy teg, gwrthrychol a chyson sy'n cydnabod ac yn lliniaru risg tuedd.

Wrth i ni ddatblygu'r polisïau a'r prosesau a nodir yn y strategaeth hon i gefnogi ein prosesau gwneud penderfyniadau rheoleiddiol, byddwn yn ceisio ac yn clywed safbwyntiau amrywiol, er mwyn elwa o brofiad byw y rhai sy'n wynebu heriau wrth ryngweithio â ni ac yn defnyddio eu mewnwelediad i herio rhagfarn ynom ni ein hunain ac eraill.

Rydym yn bwriadu gwneud hyn yn gynnar yn ein proses ddatblygu – rydym am i gleifion, myfyrwyr a chofrestreion (yn enwedig y rhai â nodweddion gwarchodedig, a'r rhai sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan bolisi) ein helpu i ddiffinio cwmpas y newid sy'n cael ei ystyried – nid dim ond ei effaith yn y pen draw.

Yn unol â nod strategol 3, bydd angen i ni ddod o hyd i ddulliau a modelau newydd i gydweithio ac ymgysylltu â chleifion a cheiropractyddion.

Byddwn yn canolbwyntio ar weithredu, atebolrwydd arweinyddiaeth, rhannu ein dysgu, a defnyddio tystiolaeth i yrru cynnydd. Nid ydym yn gweld Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant fel ychwanegyn; mae'n hanfodol i'n llywodraethu, diwylliant a pherfformiad da.

### Byddwn yn cyflawni hyn drwy

- Archwilio sut y gallwn gymhwyso model High Impact Regulatory Decisions (a ddatblygwyd gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol) i'n gwaith ni. Byddwn yn nodi ac yn mapio'r penderfyniadau rheoleiddiol a wnawn, yn deall y risgiau cynhenid ar gyfer tuedd ac yn amlygu'r lliniariadau sydd ar waith ar gyfer y risgiau hynny. Byddwn yn hyfforddi ac yn cefnogi ein penderfynwyr ac yn cynnal monitro ac ymchwil parhaus ar y penderfyniadau a wnaed.
- Byddwn yn gwneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch. Byddwn yn gweithredu lle mae ein rheolau'n anhyblyg (yn effeithio ar bobl yn annheg). Rydym wedi nodi angen penodol i ystyried sut mae ein rheolau'n effeithio ar gofrestreion sy'n ceisio amser i ffwrdd o ymarfer am resymau mamolaeth neu ofal plant.

Fel awdurdod cyhoeddus, mae ein swyddogaethau cyhoeddus wedi'u rhwymo gan Ddyletswydd Cydraddoldeb gyffredinol y Sector Cyhoeddus[6], a rhaid i ni roi sylw dyledus i sut mae ein dull yn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r amcanion ar y dudalen hon, ochr yn ochr â'n hamcan yn nod strategol 3 (sef gwella ein dealltwriaeth o safbwynt y claf), yn unol â'n dyletswydd gyfreithiol i gyhoeddi un neu fwy o amcanion cydraddoldeb o leiaf bob pedair blynedd.

[6] Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: canllawiau i awdurdodau cyhoeddus. https://www.gov.uk/government/publications/public-sector-equality-duty-guidance-for-public-authorities/public-sector-equality-duty-guidance-for-public-authorities

## Mesur ein cyflawniadau

Rydym yn cydnabod ein bod yn gweithredu o fewn system ehangach ac yn aml, bydd ymyriadau rheoleiddiol ar eu pen eu hunain yn annigonol, neu'n amhriodol, i ddod â newid. Gall hefyd fod oedi sylweddol rhwng ymyriad a newid gweladwy, ac yn aml ni fydd yn bosib priodoli achos ac effaith.

Er hyn, mae'n bwysig ein bod yn dangos ein cynnydd tuag at fodloni'r strategaeth hon. Byddwn yn ceisio olrhain y cyfeiriad mewn ffordd strwythuredig gan ddefnyddio ystod o fesuriadau sy'n darparu darlun crwn o'n gwaith. Byddwn yn cydnabod anawsterau yn ogystal â chynnydd ac yn ceisio mesur yr hyn sy'n bwysig ac yn berthnasol, nid o reidrwydd yr hyn sy'n hawdd.

Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ddysgu ac arloesi y gall dilysu allanol ei ddarparu, a byddwn yn ymgysylltu â dulliau statudol a gwirfoddol megis:

- Adroddiadau monitro blynyddol ac adolygiadau thematig gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
- Adroddiadau gan sefydliadau eraill sy'n rheoleiddio neu'n ystyried ein gweithgareddau
- Archwiliadau Stiwardiaeth Ariannol allanol
- Archwiliadau annibynnol wedi'u comisiynu i ystyried meysydd penodol o'n gwaith
- Cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil academaidd megis y prosiect Witness to Harm
- Cynlluniau achredu a chydnabyddiaeth megis Cyber Essentials a'r cynllun cyflogi Hyderus o ran Anabledd

### Byddwn yn cyflawni hyn drwy

- Gweithredu fframwaith adrodd ar berfformiad sy'n nodi cynnydd a chyflawni gweithgareddau cynllun busnes drwy bapurau cyhoeddus y Cyngor ac yn ein hadroddiad blynyddol a'n cyfrifon.
- Rhannu ein cyflwyniadau a'n cynnydd â rhanddeiliaid yn rheolaidd.
- Mesur ein heffeithiolrwydd, a chanfyddiadau o'n heffeithiolrwydd, drwy adborth ansoddol a meintiol gan gynnwys arolwg Pwls o gofrestreion
- Defnyddio mewnwelediadau o Broses Monitro Blynyddol PSA (ac adroddiadau eraill) fel catalydd ar gyfer datblygiad ac arloesi pellach.
- Comisiynu, fel sy'n briodol, arbenigwyr allanol i archwilio neu adolygu meysydd penodol o'n perfformiad

# Sut oedd y ddogfen hon?



Cliciwch ar wyneb, neu sganiwch y cod QR i rannu'ch barn

© Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim cyhyd a'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid priodoli'r deunydd i'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol, gan ddyfynnu teitl y ddogfen hon.

Dylai ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon at:

**Y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol**
Park House,
186 Kennington Park Road,
Llundain, SE11 4BT

Ff: +44 (0)20 7713 5155
E: enquiries@gcc-uk.org
G: www.gcc-uk.org

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN 978-1-903559-07-9